

Bwrdd Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch			HSE/14/71
Dyddiad Cyfarfod:	01 Hydref 2014	Statws Rhyddid Gwybodaeth:	Agored
Math o Bapur:	Uwchben y llinell	Eithriadau:	
Cyfeirnod TRIM:	2014/345942		

Adolygiad o weithgareddau'r HSE yng Nghymru

Diben y papur

1 I adrodd ar bolisi'r Bwrdd ar ddatblygiadau a gweithgareddau gweithredol yng Nghymru ac i'w diweddarau ar y cyd-destun yr ydym yn gweithio ynddo gyda'r weinyddiaeth ddatganoledig a rhanddeiliaid i gyflawni ein weithgareddau.

2 Mae'r papur (gyda manylion pellach yn Atodiad 1) yn diweddarau'r Bwrdd ar y materion allweddol yn effeithio ar gyflawniad ein strategaeth yng Nghymru.

Cefndir

3 Mae'r Bwrdd yn cynnal trafodaethau rheolaidd parthed materion yng Nghymru pan fydd yn cwrdd yno.

Gweithredu

4 I nodi gwaith presennol yr HSE (ac eithrio'r ONR) yng Nghymru.

Agweddau allweddol

5 Nid yw'r gyfradd o anafiadau ac afiechyd yn gysylltiedig â'r gwaith yng Nghymru yn sylweddol wahanol i rannau eraill o Brydain Fawr. Er bod yr achosion o fân anafiadau yn uwch nag yn Lloegr a'r Alban, mae hyn yn adlewyrchiad o gyfran uwch o bobl wedi eu cyflogi mewn galwedigaethau risg uchel. Nid ydym yn disgwyl i newidiadau rhagweladwy i'r tirlun diwydiannol gynyddu'r lefel o risg yr amlygir gweithwyr iddynt.

6 Nid oes gan Lywodraeth Cymru (LIC) bwerau deddfu datganoledig ar gyfer iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, mae materion iechyd a diogelwch yn effeithio ar gyfrifoldebau Gweinidogion LIC a gwaith eu Cyfarwyddiaethau ategol. Rydym yn dal i weithio'n agos gyda LIC ble mae cynigion deddfwriaethol yn effeithio ar ein weithgareddau.

7 Mae ymateb LIC i Adroddiad Francis ac adolygiadau o reolyddion gofal iechyd yn rhoi Cymru mewn sefyllfa wahanol i Loegr. Mae papur gwyrdd LIC yn debygol o gynnig deddfwriaeth newyddi sicrhau archwiliad cryfach, annibynnol a chylch gorchwyl rheoleiddiol ar gyfer eu rheolyddion gofal. Fodd bynnag, nid yw'r amserlen ar gyfer deddfwriaeth yn alinio gyda newidiadau deddfwriaethol perthnasol yn Lloegr, sy'n golygu y bydd ymwneud yr HSE gydag ymchwilio i fethiannau rheolaeth difrifol

yn effeithio ar ddiogelwch cleifion yn wahanol yng Nghymru a Lloegr yn ystod y blynyddoedd nesaf.

8 Galwodd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus am newidiadau radical i ddarpariaeth yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn cynnwys lleihad yn y nifer o Awdurdodau Lleol trwy uno yn hytrach nag ailddrafftio ffiniau. Bydd LIC yn nodi ei ymateb i gasgliadau'r Comisiwn yn y misoedd i ddod. Bydd graddau tebygol y newidiadau hyn yn cael goblygiadau ar y model cyflawni rheoleiddio iechyd a diogelwch gan ein cydweithwyr awdurdod lleol.

9 Er na fydd llawer o'r tirlun diwydiannol yn newid, mae'r sector ynni yn dal i gynyddu ei broffil a phwysigrwydd. Mae yna gynnig i adeiladu gorsaf bŵer niwclear ar Ynys Môn. Yn Sir Benfro, mae terfynellau mewnforio nwy hylifol naturiol (LNG) South Hook a Dragon yn ddau o'r gosodiadau mwyaf o'u math ym Mhrydain. Mae'r ddau yn safle COMAH haen uchaf gydag arwyddocâd strategol i anghenion ynni Prydain yn ystod yr 20 mlynedd nesaf. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r timau rheoli yn y safleoedd hyn i sicrhau rheolaeth effeithiol o'r peryglon a risgiau i weithwyr a'r cyhoedd.

10 Mae'r papur yn rhoi sawl enghraifft o ddarnau o waith penodol i Gymru sydd o ddiddordeb ehangach.

Cliriad y papur

Cafodd y papur ei glirio gan yr Uwch Dîm Rheoli ar 3 Medi 2014.

Atodiad 1

- A. Y darlun anafiadau ac afiechyd yng Nghymru
- B. Y tirlun diwydiannol newidiol yng Nghymru a'i effaith ar risg
- C. Cyswllt gyda'r weinyddiaeth ddatganoledig a chyrrff cyhoeddus eraill yn gwrthdaro ag ac yn cyffwrdd ar waith yr HSE
- D. Materion gweithredol ac ymyraethau arwyddocaol

A. Y darlun anafiadau ac afiechyd yng Nghymru

1 Dengys y ffigurau diweddaraf fod:

- Saith o weithwyr wedi marw yng Nghymru yn 2013/14, i lawr o wyth yn 2012/13. Y cyfartaledd ar gyfer y pum mlynedd diwethaf oedd 10 o farwolaethau gweithwyr y flwyddyn.
- Yn 2012/13 adroddwyd ar 4,173 o anafiadau i gyflogeion dan RIDDOR. Mae hyn yn cynrychioli cyfradd o 372.8 fesul 100 000 o gyflogeion, a lleihad o tua 40% ers 2008/09¹.
- Mae cyfradd mynychder salwch yn ymwneud â'r gwaith a hunan adroddwyd wedi lleihau ers 2003/04 o 5110 i 3940 fesul 100,000 o weithwyr. Nid oes arwyddocâd ystadegol i'r lleihad hwn².
- Collwyd 1.9 miliwn o ddyddiau gwaith i afiechyd neu anaf yn gysylltiedig â'r gwaith yn 2011/12 – cyfartaledd o 1.7 fesul gweithiwr
- Mae'r gyfradd o anafiadau difrifol yn adlewyrchiad o'r gyfran o bobl a gyflogir mewn galwedigaethau risg uchel neu uwch yng Nghymru. Mae math o alwedigaeth yn ysgogydd risg allweddol yn hytrach na chategori diwydiant. Mae'r dystiolaeth yng Nghymru yn un o duedd i lawr tymor hirach mewn adrodd ar anafiadau RIDDOR.

B. Y tirlun diwydiannol newidiol yng Nghymru a'i effeithiau ar risg

2 Rhwng 2001 a 2011 cafwyd rhai newidiadau yn nosbarthiad cyflogaeth yn ôl diwydiant yng Nghymru. Mae'r ganran o weithwyr a gyflogir yn y sector gweithgynhyrchu wedi lleihau o 17.3% i 10.5%, gyda chynnydd cyfatebol wedi ei ledaenu'n gyfartal rhwng sectorau eraill yn cynnwys gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, addysg, iechyd a gwaith cymdeithasol ac adeiladu.

3 Gan fod gan y sector gweithgynhyrchu gyfradd anafiadau uwch na'r cyfartaledd, yr effaith debygol, os o gwbl, fyddai rhywfaint o leihad yn y cyfraddau anafiadau cyffredinol. Fodd bynnag, er nad yw'n bosibl meintoli'r effaith, bydd yn fychan iawn.

4 Er gwaethaf dirywiad hirdymor, mae gweithgynhyrchu yng Nghymru yn parhau i arallgyfeirio ac mae ganddo gryfderau a galluoedd yn is-sectorau awyrofod ac amddiffyn, technolegau moduron, optoelectroneg a gweithgynhyrchu prosesau.

¹ Sylwer yn y cyfamser fe newidiodd trefniadau adrodd RIDDOR i'r fath raddau fel bod y trothwy adrodd cyfreithiol o anafiadau dros 3 diwrnod wedi newid i dros 7 niwrnod. Yr amcangyfrif gorau o effaith y newid hwn yw fod y gyfradd o anaf dros 7 niwrnod a adroddwyd 29% yn is na'r gyfradd anaf dros 3 diwrnod.

² Er bod y lleihad mewn salwch yn ymwneud â'r gwaith a hunan adroddwyd yn ymddangos i fod yn fawr, mae'r niferoedd isel o adroddiadau y mae'r cyfraddau mynychder wedi eu hallosod ohonynt yn golygu na ellir barnu'r lleihad fel un ystadegol arwyddocaol.

5 Mae LIC yn awyddus i ddatblygu gweithgynhyrchu yn seiliedig ar ddeunyddiau uwch megis cyfansoddiau, nanotechnoleg, optoelectroneg, electroneg argraffadwy ac electroneg silicon. Mae'r HSE yn ymwybodol o'r risgiau iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â'r deunyddiau hyn, gan ei fod eisoes wedi cyhoeddi canllaw ar nanotechnoleg.

C. Cyswllt gyda'r weinyddiaeth ddatganoledig a chyrrff cyhoeddus eraill yn gwrthdaro ag ac yn cyffwrdd ar waith yr HSE

Llywodraeth Cymru - datganoli

6 Mae gwaith y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (y Comisiwn Silk) wedi ei gadeirio gan Paul Silk, wedi ei gwblhau. Ni gynigiodd unrhyw leihad yng ngrymoedd presennol y Cynulliad nac unrhyw newid yn y mwyafrif o bwerau a ddelir gan San Steffan ar hyn o bryd, ond fe argymhellodd symud o'r model pwerau a roddwyd presennol o ddatganoli i fodel pwerau a gadwyd.

Polisi Iaith Gymraeg

7 Rydym yn dal i dderbyn adborth positif gan Gomisiynydd y Gymraeg ar ein Polisi Iaith Gymraeg. Rydym yn ymroddedig i wella gwefan ddwyieithog yr HSE a chynyddu dwyieithrwydd yn ein gwaith o ddydd i ddydd.

8 O fis Mai 2015, bydd y Comisiynydd yn dechrau rownd o 'ymchwiliadau safonau' mewn cyrrff cyhoeddus. Bydd hyn yn pennu a ddylai fod angen i ni gydymffurfio â'r safonau newydd ac, os felly, pa rai ddylai fod yn berthnasol yn benodol i ni. Bydd y safonau yn raddol gymryd lle polisïau'r sefydliadau unigol ac maent yn ehangach na'r Ddeddf yr Iaith Gymraeg maent yn disodli.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol

9 Mae Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gyfrifoldebau datganoledig ac mae'r tirlun rheoleiddiol yng Nghymru yn newid. Mae adolygiadau a chynigion diweddar ar gyfer deddfwriaeth newydd wedi arwain at oedi yn natblygiad cytundebau gweithredol gyda rheolyddion iechyd a gofal cymdeithasol. Mae digwyddiadau megis Ymchwiliad Canolbarth Swydd Stafford, Winterbourne View ac Ymgyrch Jasmine (ymgyrch ar y cyd rhwng yr Heddlu/HSE i gartrefi gofal yng Nghymru) wedi cynyddu craffu gwleidyddol ar effeithlonrwydd rheolyddion. Er gwaethaf yr oedi, mae gennym berthnasau gwaith gynhyrchiol gyda rheolyddion eraill.

10 Cyfrannodd yr HSE i adolygiad LIC o rôl Arolygiaeth Iechyd Cymru (HIW) yn ystid y Gwanwyn 2014, gan amlygu ein pryderon ynghylch y 'bwllch rheoleiddiol' a manteision ymchwiliadau i ddigwyddiadau unigol i nodi casgliadau rheoli systemig clir. Mae LIC yn bwriadu cyhoeddi papur gwyrdd yn amlinelli cynigion ar gyfer deddfwriaeth newydd i sicrhau archwiliad annibynnol, wedi ei gryfhau a chylch gwaith rheoleiddiol i'r HIW cyn diwedd tymor y Cynulliad yn 2016.

11 Mae LIC hefyd yn bwriadu cyflwyno Bil Ansawdd y GIG yn gynnar yn ystod y Cynulliad nesaf i symleiddio a chryfhau deddfwriaeth bresennol yn cwmpasu ansawdd gofal iechyd yng Nghymru. Rhagwelwn y bydd yn egluro rôl a chyfrifoldebau HIW.

12 Tua diwedd 2013, fe ymgynghorodd LIC ar y Papur Gwyn 'Dyfodol Rheoleiddio ac Archwiliad Gofal a Chefnogaeth. Eto fe fynegom bryderon ynglŷn â rheoleiddio'r sector gofal cymdeithasol. Mae LIC wedi cyhoeddi y bydd yn cyflwyno Bil newydd i ddiwygio rheoleiddio ac archwilio gofal cymdeithasol yng Nghymru yn Chwefror 2015. Mae hyn yn ceisio ffocysu rheoleiddio gofal cymdeithasol ar ganlyniadau i bobl.

13 Rydym yn gweithio'n agos gyda HIW, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a chydweithwyr Polisi LIC i gyfrannu i'r gwaith sydd ar droed. Rydym hefyd yn gweithio gyda HIW a AGGCC i gynhyrchu memoranda cyd-ddealltwriaeth dros dro i egluro ein rolau a chyfrifoldebau perthnasol.

D. Materion Gweithredol ac Ymyraethau Arwyddocaol

Awdurdod Cymwys COMAH

14 Mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru (NRW), ni yw'r awdurdod gymwys ar gyfer Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH) yng Nghymru. Byddwn yn cynnal digwyddiad ar y cyd gyda NRW yng Nghaerdydd ar 22 Hydref i ddiweddarau rhanddeiliaid ar ddatblygiadau a newidiadau yn dilyn Seveso III.

Ymchwiliad marwolaethau lluosog Purfa Chevron

15 Achosodd ffrwydrad a thân ar yr uned adfer amin ym Mhurfa Chevron yn Mhenfro ar 2 Mehefin 2011 bedwar o farwolaethau ac anafiadau difrifol i un unigolyn ar y safle. Roedd hyn yn dilyn taniad sylwedd(au) fflamadwy mewn tanc yr oedd contractwyr yn ei baratoi ar gyfer archwiliad trylwyr. Roedd hyn yn ddamwain ddifrifol, adroddadwy i'r CE dan y Gyfarwyddeb Seveso. Mae HSE yn dal i ymchwilio ar y cyd â Heddlu Dyfed Powys. Mae'r Heddlu yn dal i fod â blaenoriaeth dan y Protocol Marwolaethau Cysylltiedig â'r Gwaith.

Glanhau deunyddiau peryglus yn Euticals Ltd

16 Yn Rhagfyr 2012, nododd arolygwyr oedd yn cynnal ymchwiliad yn Euticals Ltd, Sir y Fflint, bresenoldeb swm sylweddol o ddeunydd peryglus oedd mewn cyflwr gwael ac ansefydlog iawn. Roedd y cemegau yn cynnwys Isosorbid Dinitrite (ISDN), cemegyn gyda phriodweddau ffrwydrol; asid nitrig mygdarthol cyrydol ac adweithiol iawn ac anhydrid asetig; sylweddau mawr o gemegau labordy; a thoddiant iodid methyl, sy'n wenwynig a pheryglus iawn i'r amgylchedd.

17 Roedd y swm o ddeunyddiau, ei gyflwr gwael a diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o'i ffurf a phriodweddau yn golygu fod yr amgylchiadau hyn yn unigryw.

18 O ystyried y potensial ar gyfer ffrwydrad a goblygiadau arwyddocaol dilynol oddi ar y safle, datganwyd digwyddiad mawr, bu'n rhaid gwagio'r eiddo diwydiannol gerllaw ac fe gynullodd yr HSE dîm o arolygwyr arbenigol cemegau a ffrwydron a gwyddonwyr HSL i gefnogi'r ymateb amlasiantaethol. Yn ystod y misoedd dilynol, roedd gwybodaeth a gododd am y safle a'r deunyddiau, yn ogystal â chyfyngiadau deddfwriaeth bresennol, yn cyflwyno heriau ychwanegol ac fe barhaom i gefnogi'r ymateb, gan ddefnyddio dull reoleiddiol hyblyg i sefydlu datrysiadau ymarferol er mwyn cael gwared ar y deunyddiau mwyaf peryglus o'r safle yn ddiogel.

19 Roedd samplu a phrofi'r ISDN gan HSL yn gymhleth a thrylwyr iawn o anghenraid. Roeddem angen sicrhau diogelwch personol y rhai dan sylw a darparu'r hyder yn y canlyniadau a fyddai'n hysbysu barnau ar sut i drin a delio â'r ISDN.. Roedd hyn hefyd yn helpu hysbysu'r ystod peryglon ar gyfer gwybodaeth gyhoeddus a chynllunio argyfwng.

20 Ar 31 Gorffennaf 2013, aeth Euticals Ltd i fethdaliad gwirfoddol, gan adael y mwyafrif o'r deunydd peryglus ar ôl. Ers hynny, mae'r HSE a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi parhau i ymgysylltu â Chyngor Sir y Fflint ac asiantaethau cefnogol eraill megis Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r asiantaethau heddlu, tân ac iechyd lleol i ddarparu cyngor a chymorth i'w galluogi i reoli diogelwch y safle nad yw wedi ei feddiannu a delio ag ymgyrch lanhau gemegol fawr.

21 Mae llawer i'r deunydd perygl uchel nawr wedi ei symud o'r safle. Mae Cyngor Sir y Fflint yn defnyddio contractwyr arbenigol i reoli'r prosiect o symud y cemegau sy'n weddill, gan gynnwys dadlygru, datgymalu a dymchwel gwaith, adeiladau a seilwaith prosesu cemegau.

22 Cwblhawyd symud a phrosesu'r ISDN heb ddamweiniau a heb fawr o amhariad i'r gymuned leol a busnesau cymdogol.

Storfa Nwy Naturiol Hylifol

23 Mae'r Adran Ynni, Uned Nwy a Phiblinellau wedi parhau i weithio i sicrhau bod terfynellau mewnforio Nwy Naturiol Hylifol (LNG) South Hook a Dragon yn Aberdaugleddau yn cynnal gofynion diogelwch er gwaethaf newid amodau gweithredol.



Adeiladu tanciau storio LNG South Hook

24 Yn amodol i ganiatadau cynllunio angenrheidiol (a fydd yn cael eu hystyried yn Hydref 2014), bydd cyfleuster cynhyrchu pŵer mawr yn cael ei ddatblygu ar y cyd â therfynell South Hook. Ni fydd y cyfleuster hwn yn rhan o'r gosodiad COMAH LNG yn South Hook a bydd yn cael ei weithredu gan gwmni ar wahân.

25 Mae LNG Dragon yn dal i fod yn derfynell storio nwy bwysig, sy'n allforio nwy i'r system trawsyriant nwy cenedlaethol (NTS). Mae ei fodel gweithredu yn golygu fod marchnadoedd LNG byd eang yn effeithio ar ei weithgaredd allforio. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r allforio i NTS wedi bod yn gyfyngedig oherwydd cynnydd mewn prisiau LNG yn y Dwyrain Pell.

Dosbarthiad Nwy

26 Mae Wales and West Utilities (WWU) nawr wedi cwblhau datgomisiynu eu holl ddalwyr nwy yng Nghymru.

27 Ymchwiliodd yr HSE i ffrwydrad nwy mewn eiddo domestig yn Aberdaugleddau ar 14 Hydref 2013. Dioddefodd preswlydd 79 oed anafiadau mân losgiadau wedi i nwy a ryddhawyd o brif bibell 6" difrodedig oedd wedi ei lleoli yn y ffordd o flaen ei eiddo ddianc a thanio. Cadarnhaodd ein hymchwiliad fod WWU wedi cynnal y brif bibell nwy yn ddigonol yn unol â Rhaglen Lleihau Risg Prif Bibellau Haearn y diwydiant, felly nid oedd unrhyw gamau gorfodi. Mae WWU yn dal i weithredu gwelliannau i'w prosesau cywirdeb asedau i leihau'r risg o fethiant yn seilwaith y cyflenwad nwy.



Ymchwilwyr yn safle'r ffrwydrad nwy yn Aberdaugleddau

28 Mae yna dîm Adeiladu Cymru sydd â phroffil ymchwilio ac archwilio tebyg i'r timau eraill ar draws FOD CD. Mae diwydiant adeiladu Cymru yn disgwyl gweld ei allbwn yn codi ar gyfradd gyfartalog o 3.4% y flwyddyn yn ystod y pum mlynedd nesaf hyd at 2018 os bydd gwaith adeiladu ar yr orsaf bŵer niwclear newydd ar Ynys Môn yn mynd yn ei flaen. Byddai hyn yn arwain at gael 6,000 o weithwyr adeiladu ar y safle ar gyfer prosiect yn ymestyn i 2020 a thu hwnt. Maent hefyd yn rhagweld cynnydd mewn gwaith adeiladu ac adfywio.

29 Yn ystod y 18 mis diwethaf, mewn cydweithrediad â'r Swyddfa dros Reoli Niwclear, rydym wedi cynnal nifer o gyfarfodydd gyda Horizon Nuclear Power parthed y gwaith niwclear newydd yn Wylfa i sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol yn rheoli'r risgiau nad ydynt yn niwclear sy'n gysylltiedig â'r cam adeiladu yn briodol.

30 Mae adeiladu cartref yn flaenoriaeth archwilio ac mae CD yn rhagweld risgiau sy'n gysylltiedig â chyflymder twf yn cynnwys pwysau amser cynyddol ar brosiectau a defnyddio gweithwyr dibrofiad. Mae cynllun gwaith CD hefyd yn gofyn am rai ymweliadau i brosiectau paneli solar masnachol a fydd yn cynnwys o leiaf un digwyddiad rhanddeiliaid Cymreig.

31 Yn ystod 2014/15, bydd yna gyfres o archwiliadau targedig yn sector diwydiant adeiladu gwledig y diwydiant, ynghyd â datganiad i'r wasg.



Lleoliad cwmp o sgaffald diffygiol yn ystod gwaith to ar fferm yng Nghymru

32 Mae CD hefyd wedi targedu gwaith ailwampio yn ardaloedd myfyrwyr Caerdydd ble mae safonau yn amrywio'n fawr iawn. Rydym wedi cymryd camau gorfodol, yn cynnwys erlyn, yn erbyn datblygwyr. Bydd y tîm yn parhau i dargedu perfformwyr gwael yn y maes hwn.

33 Mae yna ddau grŵp Working Well Together (WWT) gweithredol yng Nghymru yn cael ei redeg gan 50 cwmni partner o ddiwydiant adeiladu Cymru. Mae digwyddiadau WWT yn targedu busnesau adeiladu llai i godi ymwybyddiaeth a safonau iechyd a diogelwch. Yn y flwyddyn hyd at ddiwedd Gorffennaf 2014, fe ddarparodd y partneriaid saith digwyddiad ar draws 23 o safleoedd, gyda dros 800 o weithwyr a myfyrwyr yn mynychu.

34 Yn 2013, galwodd Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr yng Nghymru, FMB Cymru, am astudiaeth i sut allai cynllun trwyddedu ar gyfer adeiladwyr llai weithio (ymgyrch Meg). Ysgogwyd hyn gan farwolaeth Meg Burgess, oedd yn dair oed, a fu farw pan syrthiodd wal oedd newydd ei hadeiladu'n annigonol ar ei phen. Sefydlodd LIC grŵp anffurfiol i edrych ar y posibilid o gyfundrefn drwyddedu ar gyfer adeiladwyr yn gweithio ar eiddo domestig. Barn yr HSE yw fod deddfwriaeth iechyd a diogelwch presennol yn ddigonol i osod safonau ar gyfer y diwydiant, ond rydym yn darparu cyngor i'r grŵp ac yn monitro datblygiadau.

35 Mae'r FOD yn rheoli swyddfeydd yng Nghaerdydd, Caerfyrddin a Wrecsam ac yn gwasanaethau cefnogol i'r holl gyfarwyddiaethau. Yn gyffredin ag Adrannau eraill, mae gwasanaethau cefnogaeth wedi dangos cryn hyblygrwydd o ran addasu i ddulliau newydd o reoli gwybodaeth a thargedu, cyfreitha a gwaith Rhyddid Gwybodaeth p'un a yw wedi ei gynhyrchu'n lleol neu mewn swyddfa arall.

36 Bodlonodd timau FOD Cymru y nifer o archwiliadau a gynlluniwyd yn 2013/14. Roedd hyn yn cynnwys 128 o archwiliadau eiddo gyda chyddwysyddion anweddol yn rhan o'r rhaglen o reoli Clefyd y Lleng Filwr. Cafwyd toriadau materol mewn 58 eiddo, a arweiniodd at 26 hysbysiad gorfodi yn cynnwys dau hysbysiad gwahardd ar dyrrau oeri.

37 Cynhaliwyd dau ddigwyddiad Ystadau rhagorol yn ystadau diwydiannol Wrecsam a Glannau Dyfrdwy. Mynychodd dros 300 o fusnesau 44 o sesiynau hyfforddi am ddim.

Marwolaeth giât

38 Ar 3 Gorffennaf 2010, fe laddwyd Karolina Golabek oedd yn bump oed pan gafodd ei dal mewn giât awtomatig ym Mhen-y-bont. Bu farw Karolina wythnos wedi i giât awtomatig ym Manceinion ladd Semelia Campbell oedd yn chwech oed.



Y giât a laddodd Karolina Golabek

39 Edrychodd yr ymchwiliad ar ran deiliaid dyletswydd oedd yn gysylltiedig â gosod, cynnal a rheoli'r giât ac yng Ngorffennaf 2014, fe erlynodd yr FOD ddau ohonynt. Roedd un wedi gosod modur ar y giât yn 2009 ac wedi ei rhaglennu yn anghywir. Roedd yr ail wedi methu â nodi nad oedd yn ddiogel yn dilyn gwaith cynnal a chadw dim ond chwe wythnos cyn marwolaeth Karolina. Rhoddodd y Llys ddirwy i'r cwmnïau o £110,000.

40 Cynhyrchodd yr HSE dri darn o ganllaw (fel hysbysiadau diogelwch) yn dilyn marwolaeth Karolina. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar y ddyletswydd o fod yn berchen ar a chynnal y giatau, yn cynnwys gwella hyfforddiant yn gysylltiedig â chynnal y giatau. Ymatebodd y diwydiant i'r angen am wella cymhwyster hefyd, trwy'r 'ymgyrch Giatau Diogel', a datblygu 'Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diogelwch giatau i Osodwyr'.

Amaethyddiaeth

41 Bu farw un gweithiwr amaethyddol yng Nghymru yn 2013/14, i lawr o bedwar yn 2012/13. Mae marwolaethau mewn amaethyddiaeth yng Nghymru yn y naw mlynedd diwethaf (2004/05 i 2013/14) wedi amrywio o rhwng un a phump o farwolaethau y flwyddyn. Sefydlwyd y Bartneriaeth Iechyd a Diogelwch ar y Fferm yn 2012 ac mae'n dal i weithio tuag at wella perfformiad iechyd a diogelwch yn y diwydiant ffermio yng Nghymru. Mae'r Sector yn cefnogi eu gwaith ar lefel technegol a strategol.

42 Mae'r Bartneriaeth yn cymryd un pwnc ac yn ffocysu gweithgaredd hyrwyddo pob aelod ar y pwnc hwn am gyfnod penodedig o amser. Mae'r bartneriaeth hefyd wedi ymroi'n ddiweddar i berthynas fwy strategol gyda thair partneriaeth diogelwch

fferm cyfatebol Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, i rannu adnoddau ac arfer gorau.

Gofal iechyd

43 Arweiniodd ymchwiliad i lygredd asbestos yn ysbyty Glan Clwyd, sy'n cael ei redeg gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar gyflwyno nifer o Hysbysiadau Gwelliant sy'n galw am gael gwared systematig o asbestos mewn cyflwr gwael. Penderfynodd yr Ymddiriedolaeth ailwampio'r ysbyty wrth i gontractwyr symud yr asbestos. Mae LIC yn darparu adnoddau atodol i ariannu'r prosiect pum mlynedd hyd at 2017 o £150 miliwn.

44 Rhoddodd y digwyddiad hwn ac eraill sylw GIG Cymru ar risgiau o asbestos yn eu hystâd ac maent wedi comisiynu'r HSL i ddatblygu rhaglen sicrwydd 'dyletswydd i reoli' asbestos ar draws yr holl Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd.

Addysg

45 Rydym wedi gweithio gyda LIC i adeiladu rhwydwaith o gysylltiadau i rannu gwybodaeth a negeseuon allweddol gyda'r sector addysg yng Nghymru. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fe lwyddodd LIC i lansio ei ganllaw ar Reoli Asbestos mewn ysgolion yng Nghymru.

46 Yn ystod 2013-2014, cynhwyswyd 11o ysgolion yn y rhaglen archwilio asbestos mewn ysgolion. Roedd pob un o'r 11 wedi cwblhau arolwg rheoli asbestos. Roedd gan saith gynllun rheoli asbestos cynhwysfawr, y gyfradd uchaf o gymharu â gwledydd/rhanbarthau eraill.